



Ein cyf: WQ92454

Sian Gwenllian AS  
Aelod o'r Senedd dros Arfon

[Sian.Gwenllian@senedd.cymru](mailto:Sian.Gwenllian@senedd.cymru)

7 Mai 2024

Annwyl Sian,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig (WQ92454) Faint o gleifion sydd wedi'u cofrestru fel cleifion y GIG gyda'r Academi Ddeintyddol ym Mangor, a faint yw cyfanswm y cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r Academi Ddeintyddol ym Mangor?

Roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol esbonio, er ein bod ni'n parhau i siarad am bobl yn "gofrestredig gyda deintydd", mewn gwirionedd, daeth y weithred gofrestru i ben pan gyflwynwyd contract 2006.

Nododd contract 2006, a gyflwynodd Unedau o Weithgarwch Deintyddol (UDA), nad oedd unrhyw rwymedigaeth ar y feddygfa i'w gweld eto ar ôl i berson gael triniaeth, ac eithrio cywiro unrhyw driniaethau sy'n methu o fewn dau fis iddynt gael eu darparu. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae deintyddion y GIG wedi cofio cleifion y maent wedi darparu gofal iddynt o'r blaen ar gyfer archwiliadau a thriniaeth arferol, lle bo angen.

Ers mis Ebrill 2022, rydym wedi cyflwyno amrywiad i gontract deintyddol y GIG i symud i ffwrdd o UDA a thuag at atal a gofal sy'n seiliedig ar anghenion. Mae dros 80% o wasanaethau deintyddol cyffredinol wedi mabwysiadu'r amrywiad hwn o'r contract, sydd hefyd wedi eu galluogi i weld cleifion newydd - dyma bobl sydd heb weld deintydd y GIG yn ystod y pedair blynedd ariannol ddiwethaf.

Yn hytrach na "chofrestru" cleifion, mae deintyddion y GIG, sy'n gweithio o dan y trefniadau amrywio, yn cael eu talu am gael perthynas barhaus â chleifion a darparu triniaeth reolaidd iddynt, yn seiliedig ar eu hanghenion iechyd y geg.

O ran gweithgarwch yn yr Academi Ddeintyddol ym Mangor, ers i'r Academi agor ym mis Medi 2022, mae mwy na 3,000 o bobl wedi derbyn cwrs llawn o driniaeth y GIG.

Yours sincerely,



**Eluned Morgan AS/MS**

Cabinet Secretary for Health and Social Care

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol